AWTTC
All Wales Therapeutics & Toxicology Centre
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

# In Focus

Haf 2022 - Rhifyn 18

# Cylchlythyr Haf AWTTC

**Diweddariad chwarterol sy'n cynnwys y newyddion a'r mewnwelediadau diweddaraf gan ein tîm amlddisgyblaethol.**

**Yn y rhifyn hwn**
**Newyddion Ebrill – Mehefin 2022 ynghylch:**

- **Gwasanaeth Mynediad Cleifion at Feddyginiaethau (PAMS)**
  Cefnogi arfarniadau technoleg iechyd a chydlynu allbynnau IPFR
- **Uned Cymorth Presgripsiynu Dadansoddol Cymru (WAPSU)**
  Dadansoddi data presgripsiynu a datblygu adnoddau optimeiddio meddyginiaethau
- **Uned Gwenwynau Cenedlaethol Cymru (WNPU)**
  Darparu cyngor ar wenwynau 24 awr y dydd i weithwyr gofal iechyd proffesiynol
- **Canolfan Cerdyn Melyn (YCC) Cymru**
  Monitro adweithiau andwyol i feddyginiaethau




I nodi wythnos Gwirfoddolwyr ym mis Mehefin lansiodd AWTTC ymgyrch recriwtio gyda'r nod o gael mwy o aelodau lleyg i eistedd ar bwyllgorau.

Mae'r pum pwyllgor y mae AWTTC yn eu cefnogi yn cynnwys:
- Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG)
- Grŵp Meddyginiaethau Newydd (NMG)
- Grŵp Cynghori Cymru Gyfan ar Bresgripsiynu (AWPAG)
- Grŵp Cynghori Cymru'n Un ar Feddyginiaethau (OWMAG)
- Grŵp Sicrhau Ansawdd ar gyfer Ceisiadau Cyllido Cleifion Unigol (IPFR)

Gall aelodau'r pwyllgor gynnwys meddygon, fferyllwyr, nyrsys, economegydd iechyd, cynrychiolydd o'r diwydiant fferyllol, ac o leiaf un aelod lleyg (claf, gofalwr neu aelod o'r cyhoedd â diddordeb).

Mae AWTTC hefyd yn gweithio gyda byrddau iechyd a Phwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (WHSSC) i gefnogi'r gwaith o recriwtio aelodau lleyg i'w paneli IPFR.

I gael gwybod mwy [ewch i'n gwefan.]

## Cofiwch y dyddiad ar gyfer ein cynhadledd yn dathlu 20fed pen-blwydd yr AWMSG

Ym mis Tachwedd byddwn yn dathlu 20 mlynedd ers sefydlu AWMSG a phopeth a gyflawnwyd yn y cyfnod hwnnw. Yn ymuno â ni yn y digwyddiad ar 17 Tachwedd bydd yr Athro Philip Routledge, a fu'n allweddol wrth sefydlu AWMSG, Dr Samantha Roberts, Prif Weithredwr y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE), y Fonesig June Raine, Prif Weithredwr yr Asiantaeth Rheoleiddio Cynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA), Sophie Howe, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Dr Richard Torbett, Prif Weithredwr ABPI a Gweinidog Iechyd Cymru Eluned Morgan.

Cadwch lygad ar ein gwefan am fwy o wybodaeth am sut i gofrestru.



## Diwrnod i Ffwrdd Mehefin 2022

Gan fod y ddwy flynedd ddiwethaf wedi gweld ffordd newydd o weithio, roedd Diwrnod i Ffwrdd AWTTC ym mis Mehefin yn gyfle gwych i ddod ynghyd â chydweithwyr hen a newydd.

Cafodd ei gynnal yn Stadiwm Dinas Caerdydd ac roedd yn ddiwrnod o ddysgu, dod i adnabod timau ac yn gyfle braf i ailddechrau cyfarfodydd wyneb yn wyneb.

Arweiniodd James Coulson y diwrnod a rhoddodd sgwrs ysbrydoledig ar ei weledigaeth ar gyfer AWTTC dros y pum mlynedd nesaf.

Roedd y diwrnod yn gymysgedd o weithgareddau, gweithdai a sgyrsiau a hyd yn oed sesiwn Ioga Chwerthin gyda'r arbenigwr Lotte Mikkelsen, Hyfforddwr Meistr Ioga Chwerthin.

Cynhaliodd Stephanie Francis weithgaredd Gwirionedd a Chelwydd a oedd yn ffordd wych i gydweithwyr ddod i wybod mwy am ei gilydd.

Cadeiriodd Kelly Wood yr adran nesaf, Pwy ydyn ni a beth ydyn ni'n ei wneud, lle cyflwynodd pennaeth pob adran eu tîm a'r gwaith maen nhw'n ei wneud.

Hwylusodd Carolyn Hughes sesiwn gweithdy ar Ddatblygu ein Nodau Llesiant a arweiniodd at rai syniadau rhagorol.

Cafwyd sgyrsiau ar yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Iechyd gan Swyddogion Cynhwysiant BIP Caerdydd a'r Fro, Helen Anderson ac Abigail Barnard, a chyflwynodd Joanne Brandon, Cyfarwyddwr Cyfathrebu, y Celfyddydau, Elusen Iechyd ac Ymgysylltu gyflwyniad ar Gyfathrebu, Arweinyddiaeth a Gwydnwch.

Un o uchafbwyntiau'r diwrnod oedd cwis babis ein staff a gynhaliwyd gan Trevor ac Anne.

AWTTC
All Wales Therapeutics & Toxicology Centre
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

Mae AWTTC wedi cyhoeddi adroddiad sy'n amlinellu sut mae AWMSG ac AWTTC yn gweithio i gyflawni'r 7 nod llesiant a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Mae'r adroddiad yn amlinellu sut mae gwaith ac amcanion AWMSG yn berthnasol i bob un o'r 7 nod. Mae'n amlygu gwaith blaenorol a gwaith sy'n mynd rhagddo, yn ogystal â gwaith newydd a gynllunnir a chamau gweithredu arfaethedig.

Darllenwch ragor yma.




AWTTC
All Wales Therapeutics & Toxicology Centre
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

## Diwrnodau Agored y Diwydiant Fferyllol

**Mehefin 2022**

Roedd Diwrnod Agored diweddar y Diwydiant Fferyllol yn cwmpasu proses Meddyginiaethau Cymru'n Un yn ogystal â diweddariad ar y gwaith diweddar ar reoli meddyginiaethau. Roedd y sesiynau diddorol hefyd yn cynnwys cwis slido rhyngweithiol a sesiwn holi ac ateb fyr

I weld y cyflwyniad ewch i'n gwefan yma.

YCC Wales
Yellow Card Centre Wales
Canolfan Cerdyn Melyn Cymru

## Diwrnod Hyfforddiant Diogelwch Meddyginiaethau Canolfan Cerdyn Melyn Cymru 2022

Mynychwyd y diwrnod hyfforddi gan Swyddogion Diogelwch Meddyginiaethau, Hyrwyddwyr Cerdyn Melyn a fferyllwyr/nyrsys sydd â diddordeb mewn diogelwch meddyginiaethau. Roedd cydweithwyr o'r MHRA a Llywodraeth Cymru (gan gynnwys Andrew Evans, Prif Swyddog Fferyllol Cymru) hefyd yn bresennol.

Darllenwch ragor yma.

YCC Wales
Yellow Card Centre Wales
Canolfan Cerdyn Melyn Cymru

## Cofiwch y dyddiad

Mae'n Ddiwrnod Diogelwch Cleifion y Byd 2022 ar 17 Medi — thema'r ymgyrch eleni yw Diogelwch Meddyginiaethau gyda'r slogan 'Meddyginiaethau Heb Niwed'.

Bydd hi'n #WythnosDiogelwchMeddyginiaethau 2022 rhwng 7 - 13 Tachwedd, a bydd ymgyrch eleni yn canolbwyntio ar 'sut mae cleifion a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn sicrhau diogelwch'. Y brif neges fydd, trwy adrodd am sgil-effeithiau a amheuir, bod cleifion a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn gallu cymryd rhan weithredol wrth nodi materion diogelwch sy'n dod i'r amlwg - fel y gall rheoleiddwyr gymryd camau pan fo angen a diogelu eraill rhag niwed.

WAPSU
Welsh Analytical Prescribing Support Unit
Uned Cymorth Presgripsiynu Dadansoddol Cymru

## Dangosyddion Presgripsiynu Cenedlaethol 2022-2023– Dogfen manylebau

**Mai 2022**

Mae'r ddogfen atodol hon yn manylu ar fanylebau pob NPI gan gynnwys ffynhonnell ddata, basgedi cyffuriau a thargedau/ trothwyon fel y bo'n briodol ar gyfer NPIs 2022—2023.

Darllenwch ragor yma.

WAPSU
Welsh Analytical Prescribing Support Unit
Uned Cymorth Presgripsiynu Dadansoddol Cymru

## Dangosyddion Presgripsiynu Cenedlaethol 2021–2022: Dadansoddiad o Ddata Rhagnodi hyd at fis Rhagfyr 2021

**Ebrill 2022**

Mae Dangosyddion Presgripsiynu Cenedlaethol (NPIs) ar gyfer 2021-2022 yn cynnwys dangosyddion ar gyfer gofal sylfaenol ac eilaidd, gan ganolbwyntio ar dri maes blaenoriaeth:

- Poenliniarwyr mewn gofal sylfaenol
- Gwrthgeulyddion mewn ffibriliad atrïaidd
- Stiwardiaeth gwrthficrobaidd

Darllenwch ragor yma.

WAPSU
Welsh Analytical Prescribing Support Unit
Uned Cymorth Presgripsiynu Dadansoddol Cymru

## Presgripsiynu seiliedig ar werth – Strategaeth

**Mehefin 2022**

Nod Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG) yw annog clinigwyr i bresgripsiynu meddyginiaethau sy'n cynnig y canlyniadau iechyd gorau i wella ansawdd bywyd cleifion sy'n byw yng Nghymru.

Darllenwch ragor yma.

WAPSU
Welsh Analytical Prescribing Support Unit
Uned Cymorth Presgripsiynu Dadansoddol Cymru

## Pecyn cymorth optimeiddio meddyginiaethau cartrefi gofal

**Mehefin 2022**

Nod Pecyn Cymorth Optimeiddio Meddyginiaethau Cartrefi Gofal yw dod â chyfres o ddogfennau canllaw, offer ac adnoddau defnyddiol at ei gilydd ar gyfer staff cartrefi gofal a thimau fferyllol sy'n rhoi cyngor a chymorth i gartrefi gofal.

Darllenwch ragor yma.

WAPSU
Welsh Analytical Prescribing Support Unit
Uned Cymorth Presgripsiynu Dadansoddol Cymru

## Adroddiadau ôl-troed carbon anadlyddion GIG Cymru

Mae adroddiadau misol sy'n crynhoi rhai o'r metrigau allweddol ar gynnydd i leihau ôl-troed carbon anadlyddion a ddefnyddir yn y maes gofal sylfaenol yng Nghymru ar gael ar wefan AWTTC.

Darllenwch ragor yma.

WNPU
Welsh National Poisons Unit
Uned Gwenwynau Cenedlaethol Cymru

## Digwyddiad DPP y Gwasanaeth Gwybodaeth Gwenwynau Cenedlaethol, Newcastle

**Mehefin 2022**

Cyfarfu'r Gwasanaeth Gwybodaeth Gwenwynau Cenedlaethol (NPIS) â chydweithwyr o bob un o bedair uned NPIS y DU ar gyfer digwyddiad Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) deuddydd rhagorol, a gynhaliwyd ar faes pêl-droed St James' Park, Newcastle.

Darllenwch ragor yma.

WNPU
Welsh National Poisons Unit
Uned Gwenwynau Cenedlaethol Cymru

## Adolygiad o wenwyndra alwminiwm a gyhoeddwyd gan Uned Gwenwynau Cenedlaethol Cymru

Yn ddiweddar, cyhoeddodd yr Athro James Coulson a Bethan Hughes, o Uned Gwenwynau Cenedlaethol Cymru, adolygiad awdurdodol o wenwyndra alwminiwm mewn pobl yn y cyfnodolyn Clinical Toxicology (2022; 60 (4) :415-428).

Darllenwch ragor yma.

PAMS
Patient Access to Medicines Service
Mynediad Claf at Wasanaeth Meddyginiaethau

## Cyngor ar feddyginiaethau newydd i GIG Cymru

Ebrill – Mehefin

Mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo argymhellion gan Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan ar gyfer pedair meddyginiaeth rhwng Ebrill i Fehefin 2022.

Cyngor mis Mai ar Feddyginiaethau Newydd – Darllenwch ragor yma.

Cyngor mis Mehefin ar Feddyginiaethau Newydd - Darllenwch ragor yma.

AWTTC
All Wales Therapeutics & Toxicology Centre
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

## Diweddariadau i broses adolygu argymhellion AWMSG gan gynnwys cyhoeddi rhestr statig newydd

Mae newidiadau i'r ffordd y mae argymhellion arfarnu terfynol AWMSG yn cael eu hadolygu, gan gynnwys cyhoeddi rhestr 'statig', wedi eu gweithredu.

Cafodd y broses adolygu wedi'i diweddaru ei chymeradwyo gan Bwyllgor Llywio AWMSG a'i chefnogi gan Fforwm Diwydiant AWTTC.

Darllenwch ragor yma.

AWTTC
All Wales Therapeutics & Toxicology Centre
Canolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan

## Staff AWTTC yn cystadlu mewn cystadleuaeth rhedeg

Cymerodd pedwar aelod o AWTTC ran yn y ras gyfnewid ym Mharc Llynnoedd Cosmeston ger Penarth ar noson gynnes braf. Ar y cyfan, roedd mwy na 700 o redwyr yn cystadlu mewn timau o dri a oedd yn olygfa gyffrous. Cwblhaodd pob rhedwr gylchdaith o dair milltir cyn tagio'r aelod nesaf o'r tîm. Gwnaeth Steph Francis, Laurence Gray a James Coulson ffurfio un tîm o dri a gwnaethant ei gwblhau gydag amser tîm parchus iawn o 72 munud. Cynlluniwyd ail dîm yn cynnwys Susan Cervetto a Stuart Keeping, ond yn anffodus roedd gan Sue Covid ar y pryd felly ni allai redeg. Cafodd yr ail dîm ei lenwi felly gan dau redwr o'r tu allan i'r adran. Byddai'n wych mynd yn ôl i gael pump neu chwe thîm AWTTC fel yr oedd gennym cyn 2019, felly dechreuwch hyfforddi nawr ar gyfer digwyddiad 2023. Wrth gwrs, mae croeso i wylwyr a chefnogwyr hefyd.

Cofrestrwch i dderbyn cylchlythyrau'r dyfodol a darllenwch ein cylchlythyrau blaenorol ar wefan AWTTC.

I ddarllen newyddion diweddaraf AWTTC dilynwch: @AWTTCcomms l @AWTTCcymraeg

I roi adborth neu i ymuno â rhestr bostio AWTTC, e-bostiwch: awttc@wales.nhs.uk